## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor.

Mae'n cynnwys monitro anifeiliaid beichiog (e.e. eu bwyd, dŵr ac amodau amgylcheddol) a chymryd y camau gofynnol pan fo angen, fel addasu hwsmonaeth neu adrodd am bryderon wrth y person perthnasol.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyfer darparu dyletswydd gofal yn unol â deddfwriaeth bresennol iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'n rhaid i chi gynnal iechyd a les anifeiliaid ac adnabod unrhyw broblemau iechyd.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sydd yn gofalu am anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
gweithio'n broffesiynol ac yn foesegol ac o fewn terfynau eich awdrudod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad eich hun
2.
gwneud y gweithgaredd yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, polisi eich sefydliad, y ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion y rhaglen fridio
3. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid berthnasol a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
5. cynnal hylendid a bioddiogelwch yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, deddfwriaeth berthnasol a pholisïau sefydliadol
6. parhau i gyfathrebu gyda chydweithwyr a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
7. asesu anghenion gofal a lles yr anifail o dan eich dyletswydd gofal
8. cynnal amodau amgylcheddol gofynnol yr anifail trwy gydol y cyfnod beichiogi ac esgor
9. darparu bwyd a dŵr i anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle
10. cynnal unrhyw driniaethau arferol anifeiliaid, yn ystod beichiogrwydd ac esgor, yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle
11. rhyngweithio gyda'r anifail mewn ffordd sydd yn lleihau straen yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor ac sydd yn galluogi arsylwi i ddigwydd
12. arsylwi cyflwr yr anifail trwy gydol y beichiogrwydd a chymryd y camau gofynnol os oes amrywiadau i'w cyflwr arferol yn digwydd
13. adnabod arwyddion esgor mewn anifeiliaid
14. darparu'r gofal gofynnol ar gyfer anifeiliaid yn syth ar ôl iddynt esgor
15. asesu'r risg o fynd at yr anifail gyda'i hepil
16. gwirio cyflwr yr anifail a'i hepil ar yr amserau â'r cyfnodau gofynnol fel sydd yn ofynnol yn ôl y rhywogaeth
17. ymdrin â gwastraff yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, ymarfer sefydliadol â'r

ddeddfwriaeth berthnasol

18. cadarnhau bod y cofnodion yn cael eu cadw a'u storio fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
eich cyfrifoldebau proffesiynol a therfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad
2.
eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, asesiadau risg, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
3. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid a deddfwriaeth yn ymwneud ag anifeiliaid, codau ymarfer cysylltiedig a pholisïau sefydliadol
4. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch â'r dulliau ar gyfer cyflawni hyn
5.
pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn
6.
pwysigrwydd gofalu am anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithle, polisi eich sefydliad, y ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion y rhaglen fridio
7. sut i asesu anghenion gofal a lles yr anifeiliaid o dan eich dyletswydd gofal
8. yr amodau amgylcheddol sydd yn ffafriol i les anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac esgor
9. anghenion maeth yr anifail yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl esgor
10. hyd cyfnodau gwahanol beichiogrwydd yn yr anifeiliaid o dan eich dyletswydd gofal
11. sut i adnabod arwyddion iechyd mewn anifeiliaid yn ystod cyfnod y beichiogrwydd â'r rheiny a allai ddangos amrywiad yn eu cyflwr arferol
12. y triniaethau milfeddygol arferol/ataliol sy'n ofynnol gan yr anifail trwy gydol beichiogrwydd
13. yr arwyddion bod yr anifail o dan eich dyletswydd gofal yn agosáu at esgor, yn cynnwys newidiadau ymddygiadol a chorfforol
14. cyfnodau gwahanol esgor mewn anifeiliaid o dan eich dyletswydd gofal, unrhyw gymhlethdodau posibl a sut i adnabod a lleihau'r risg o'r rhain
15. y mathau o gymorth y gall fod eu hangen ar anifeiliaid wrth esgor a phryd i gael cyngor milfeddygol

16. y triniaethau milfeddygol arferol sydd yn ofynnol ar ôl esgor
17. sut i adnabod beichiogrwydd sydd wedi methu mewn anifeiliaid
18. pam y mae'n bwysig ailasesu risg wrth fynd at yr anifail a'i hepil
19. sut gallai eich gweithredoedd, neu weithredoedd y rheiny sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd, effeithio ar ymddygiad a lles yr anifail
20. sut i drin, cludo, storio a gwaredu gwastraff yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol ac arferion eich sefydliad
21. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â gofalu am anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

**Adnabod yr arwyddion canlynol o esgor:**

1. newidiadau ymddygiadol
2. newidiadau corfforol

## Geirfa

Mae **Esgor** yn golygu'r broses o roi genedigaeth.

Mae **Beichiogrwydd** yn golygu hyd y cyfnod o fod yn feichiog

**Deddfwriaeth gyfredol lles anifeiliaid:**

- Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid
- Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon)
- Rheoliad Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau yn Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr)
- Rheoliad Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru)
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Sefydliadau Bridio Cŵn a Diwygiadau Amrywiol) (Gogledd Iwerddon)

Gofalu am anifeiliaid yn ystod beichiogrwydd ac wrth esgor

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCU36 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal anifeiliaid |
| **Cyfres/Set** | Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | bridio; anifeiliaid; esgor; genedigaeth; epil |